

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Offerynnau Statudol gydag Adroddiadau Clir

7 Mawrth 2016

CLA680 - Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007 (OS 2007/396) i ddarparu pŵer dewisol i'r Prif Weinidog i ymestyn tymor y Comisiynydd Pobl Hŷn ("y Comisiynydd") sydd mewn penodiad cyntaf, am uchafswm o ddwy flynedd.

Ymhellach, mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu, os bydd y Prif Weinidog yn ymestyn tymor y Comisiynydd, ni all y Comisiynydd gael ei ailbenodi am ail dymor.

CLA681 - Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001;
- Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006;
- Rheoliadau Arolygu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006; a
- Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 2015.

Effaith y newidiadau yw galluogi Estyn i ryddhau adnoddau i helpu Llywodraeth Cymru i weithredu argymhellion adolygiad Donaldson, 'Dyfodol Llwyddiannus'. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru arolygu o leiaf unwaith mewn cyfnod o saith mlynedd yn dechrau ar 1 Medi 2016 gan orffen ar 31 Awst 2023 ac o leiaf unwaith mewn cyfnod o chwe blynedd ddilynol.



CLA685 - Rheoliadau Dyletswydd Asiantau Gosod i Roi Cyhoeddusrwydd i Ffioedd (Eithrio) (Cymru) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu nad yw gweithwyr cyfreithiol proffesiynol sy'n gweithredu mewn swyddogaeth gyfreithiol ar waith sy'n ymwneud â gosodiadau yn asiantau gosod. Felly, ni fydd darpariaethau yn Neddf Hawliau Defnyddwyr 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i arddangos ffioedd yn berthnasol, oni bai bod y gweithwyr cyfreithiol proffesiynol hefyd yn cyflawni agweddau eraill ar waith asiantaeth gosod.

CLA692 - Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer dirymu is-ddeddfwriaeth Cymru yn unig a datgymhwysu mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth Cymru a Lloegr a Chymru a wneir o dan unrhyw un o ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth yr ydym wedi eu diddymu o ganlyniad i gychwyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Maent hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol ac atodol i is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol o ganlyniad i gychwyn Deddf 2014 ynggyd â darpariaethau arbed a throsiannol yn ymwneud â darpariaethau gofal a chymorth a pharhad unrhyw adolygiad ymarfer plant a wnaed ond nad yw wedi'i gwblhau cyn i Ddeddf 2014 ddod i rym.

CLA693 - Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) a Chynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn, mewn perthynas â Chymru, yn newid y ddarpariaeth a wnaed yn ffurfiol o dan Ran 3 Deddf Plant 1989. Mae'r Rheoliadau'n diwygio is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya mewn perthynas â chynllunio gofal, penderfyniadau lleoli ac adolygu achosion.

CLA694 – Rheoliadau Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015 a Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig



Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014. Mae'r newidiadau'n ymwneud â'r agweddau gweinyddol ar y Cynllun Taliad Sylfaenol a gwelliant i'r Rheoliadau Trawsgydymffurfio i ganiatáu i ffermwyr adael arwyneb garw dros y gaeaf. Mae'r Rheoliadau hefyd yn dirymu Rheoliadau Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygio) (Cymru) 2016.

CLA695 - Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau, Gweithdrefn a Chyhoeddi) (Cymru) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â hysbysiad o dan adrannau 37, 38 a 39 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a sut a phryd y mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan adran 40(1) o Ddeddf 2015.

CLA677 - Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i berson sydd â gofal neu reolaeth dros olew gydymffurfio â gofynion penodol mewn perthynas â storio a thrafod. Eu nod yw lleihau ac atal llygredd dŵr.

Mae prif ofynion y Rheoliadau hyn yn cynnwys:

- rhaid i olew gael ei storio mewn cynwysyddion sy'n ddigon cryf
- rhaid i gynwysyddion olew gael eu lleoli o fewn systemau atal eilaidd
- rhaid cymryd camau i atal gollyngiadau o danciau, pypiau a phibellau ac ati.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn cwmpasu storio a thrin olew tanwydd amaethyddol, a thrwy hynny yn disodli'r darpariaethau presennol ar gyfer olew o'r fath yn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010.

CLA686 - Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgoriau Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â hyrwyddo sgoriau hylendid bwyd o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd tecawê arddangos datganiad dwyieithog ar ddeunyddiau copi caled a ddiffinnir (e.e. bwydlenni a thafenni), yn cyfeirio'r defnyddiwr at wefan sgoriau hylendid bwyd ac annog y defnyddiwr i ofyn i'r busnes bwyd am ei sgôr. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer y defnydd gwirfoddol o ddelweddau sgôr hylendid bwyd a rhagnodi eu fformat gan gynnwys creu pwerau troseddau a gorfodi.



CLA687 - Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) (Rhif 2) 2016

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diweddarau, drwy fewnosod sefydliadau newydd, Atodlen 6 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru (drwy reoliadau ar wahân) i wneud Safonau Iaith Gymraeg mewn perthynas â'r sefydliadau hyn ac awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i'w gwneud yn ofynnol i'r sefydliadau hynny gydymffurfio â'r safonau.

CLA689 – Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad y cyrff a restrir yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau. Y cyrff a restrir yw:

- Y Tribiwnlys Tir Amaethyddol;
- Cyngor y Gweithlu Addysg;
- Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru;
- Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru;
- Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru;
- Tribiwnlys Prisio Cymru.

CLA690 – Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad y cyrff a restrir yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau. Y cyrff yw:

- prif gwnstabiliaid yr heddluoedd sy'n gweithredu yng Nghymru (Heddlu Trafnidiaeth Prydain, Cwnstabiliaeth Niwclear Sifil, Heddlu Dyfed Powys, Heddlu Gwent, Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu De Cymru);
- Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain;
- yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil;
- Comisiynwyr Heddlu a Throsedd Dyfed Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru;
- Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu;



– yr Awdurdodau Tân ac Achub sy'n gweithredu yng Nghymru (Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a De Cymru).

CLA691 - Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Darpariaethau Canlyniadol) 2016

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i gael gwared ar ddyletswyddau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'u Cynllun Iaith Gymraeg. O 31 Mawrth 2016 ymlaen, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

